**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod aml-leoliad - Simabr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 8 Gorffennaf 2022 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S Bennett | J P Curtice | S Joy |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Richard Booton | Swyddog Trwyddedu |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Richard Jenkins | Arweinydd Gweithredol - Tacsis |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Bailey, P Downing, V A Holland a P Lloyd

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2022 yn gofnod cywir.

## 11 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 12 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat - NWWG.

Cyflwynodd yr Arweinydd Gweithredol, Tacsis, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag NWWG.

Esboniodd NWWG yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cais NWWG am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Roedd yr aelodau wedi ystyried yr holl wybodaeth yn yr adroddiad ac wedi gwrando ar sylwadau'r ymgeisydd.

Roedd yr aelodau'n fodlon bod yr ymgeisydd wedi dangos aeddfedrwydd ac edifeirwch, gan ddarparu rhesymau cymhellol ac amgylchiadau eithriadol i ganiatáu iddynt wyro o'r arweiniad yn ôl 3.29.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.26 am

**Cadeirydd**